Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-

Gyfarwyddiad CHAPPIE (Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant) – Chwefror 2009

Y mae'r e-gyfarwyddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am farcwyr dyddiaduron, crynodebau ymchwil ac adroddiadau, ystadegau a newyddion. Yr wyf yn gobeithio y gwnewch ganfod y wybodaeth yn ddiddorol ac o fudd ichi. Os ydych wedi derbyn yr e-bost hwn drwy gyfrwng cydweithiwr ac yr hoffech ymuno â'r rhwydwaith CHAPPIE, a fyddech cystal â dilyn y dolenni ar waelod y dudalen.

Fe edrychaf ymlaen at eich cyfarfod i gyd eto yn fuan, ac yn y cyfamser, os gallaf fod o unrhyw gymorth, gadewch imi wybod, os gwelwch yn dda.

Karen McFarlane
Swyddog Datblygu: Diogelwch Plant
Karen.mcafarlane@childreninwales.org.uk

Dyddiadau ar gyfer Eich Dyddiadur

- **26ain o Fawrth 2009 – CYFARFOD RHWYDWAITH CHAPPIE, Ynys Môn, 10.00 y bore - 1.00 y pnawn** – Fe fydd rhaglen ar gyfer y digwyddiad RHAD AC AM DDIM hwn yn cael ei hanfon ymlaen yn go fuan. I neilltuo lle neu i fynegi'ch diddordeb, anfonwch e-bost at ***caroline.taylor@childreninwales.org.uk*** ***Cliciwch yma*** i weld manylion a chyflwyniadau o ddigwyddiadau blaenorol CHAPPIE.
- **4ydd o Fehefin 2009 - CYNHADLEDD FLYNYDDOL CHAPPIE, Gwesty'r Angel, Caerdydd, 9.30 y bore - 4.30 y pnawn** - Fe fydd y gynhadledd hon yn edrych ar ganfyddiadau Cerdyn Adroddiad Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, UNICEF & Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Cymru (i'w lansio ddiwedd mis Ebrill) ac ar sut y gallwn ni fwrw ymlaen gydag atal damweiniau i blant yn lleol ac yn genedlaethol ar lefelau ymarferol ac o ran polisi, fel ei gilydd. Fe hoffem annog ymarferwyr i fynychu gyda'u llunwyr polisi, ac yr ydym felly'n darparu'r gynhadledd ar gyfradd gymorthdaledig o ond £35 y person. I neilltuo lle neu i fynegi'ch diddordeb mewn mynychu, a fyddech cystal â chysylltu â **caroline.taylor@childreninwales.org.uk**
- **24ain & 25ain o Fedi 2009 - Cynhadledd Bob Dwy Flynedd gan Arsyllfa Anafiadau Prydain ac Iwerddon (IOBI) - i'w chynnal yng Nghymru am y tro cyntaf.** Fe gynhelir y gynhadledd ddeuddydd hon, a gyd- gynhelir gan Plant yng Nghymru, yng Ngwesty'r Angel, Caerdydd. Y mae'r gyfradd ar gyfer cynrychiolwyr a'r rhaglen i'w cadarnhau. Fe fydd aelodau CHAPPIE yn cael cynnig cyfradd is i gynrychiolwyr. Fe fydd pynciau'r gynhadledd yn cynnwys Gwerthuso, Epidemioleg, Canfyddiadau Ymchwil, offer a chynllunio Atal

Damweiniau, a Sut i ymgysylltu â llunwyr polisi. I neilltuo'ch lle, cysylltwch â **caroline.taylor@childreninwales.org.uk ,**os gwelwch yn dda.

Newyddion Gwych i Aelodau Plant yng Nghymru
Yr ydym yn parhau i ymdrechu'n galed i ddarparu ystod o fuddion gwerthfawr i aelodau fanteisio arnynt ac, yn newydd ar gyfer 2009, yr ydym wedi ymuno gyda Kidrapt, cyflenwyr cyfarpar diogelwch plant, sydd wedi cytuno anfon **pecyn cyfarpar diogelwch cydategol,** gwerth £50 i holl aelodau Plant yng Nghymru sy'n adnewyddu neu sy'n tanysgrifio ar gyfer 2009/10. Fe fydd y pecyn diogelwch wedi'i seilio o amgylch cyfarpar diogelwch cartref effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac fe fydd ar gael o fis Ebrill 2009. Am ragor o wybodaeth am aelodaeth a'i buddion, a fyddech cystal â chysylltu ag **aelodaeth@plantyngnghymru.org.uk**

Canllaw Ymarfer Da ar Ddiogelwch Plant
Y mae Crynodeb Gweithredol y Canllaw Ymarfer o eiddo Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop yn awr ar gael. **Cliciwch yma i gael golwg**

Wythnos Diogelwch Plant (Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau i Blant / CAPT) – cyhoeddi thema
http://www.capt.org.uk

Ymchwil Diogelwch Ffyrdd, Adroddiadau ac Arfarniadau o Brosiectau – yn cynnwys gwybodaeth am newid ymddygiad a all fod yn berthnasol i feysydd eraill o ran damweiniau
http://www.dft.gov.uk/pgr/roadsafety/research/rsrr/theme1/

Ystadegau Diogelwch Ffyrdd
http://www.childreninwales.org.uk/policy/documents/statistics/10847.html

Casgliadau a Chrynodebau o'r Gynhadledd Ewropeaidd ar Atal Anafiadau
http://www.eurosafe.eu.com/csi/eurosafe2006.nsf/wwwVwContent/l32ndeuropeanconferenceoninjurypreventionandsafetypromotion9-10october2008paris-paris.htm

Fe Ellid Achub 600 o Fywydau Plant ar Ffyrdd yr Undeb Ewropeaidd
Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod, os gwelwch yn dda:
http://www.eurosafe.eu.com/csi/eurosafe2006.nsf/wwwVwContent/533F0D6FD77E5BDDC12575580026E92C?opendocument&context=87FA6BF1B992D25FC12571850037D099

Gwybodaeth oddi wrth Eurosafe
Tri chynnyrch sydd wedi'u cynhyrchu yn fframwaith y prosiect APOLLO, 'Strategaethau ac arferion gorau ar gyfer lleihau anafiadau'. Y cynhyrchion yw:

1. Report on 'HOW TO OVERCOME THE BARRIERS TO IMPLEMENT RECOMMENDATIONS FOR YOUTH INJURY PREVENTION: The Case of Road Traffic Injuries

Nod yr adroddiad hwn yw gwasanaethu fel canllaw defnyddiol ar gyfer llunwyr polisi, ymchwilwyr atal anafiadau ac ymarferwyr diogelwch sy'n dymuno cynllunio a gweithredu mewn modd effeithiol ymyriadau diogelwch traffig ffyrdd sy'n targedu'r glasoed ac oedolion ieuainc. Nod rhan gyntaf yr adroddiad yw asesu effaith ymddygiad 'cymryd risgiau' ynglŷn â bod yn rhan o ddamwain ar y ffordd ymysg myfyrwyr Prifysgol. Y mae ail ran yr adroddiad yn berthnasol i fethodoleg ansoddol i archwilio rhwystrau canfyddedig ieuenctid rhag derbyn mesurau diogelwch. Ar gael yn:
http://www.eurosafe.eu.com/csi/eurosafe2006.nsf/wwwVwContent/l4wp3results.htm a **http://www.euroipn.org/apollo/WP3.htm**

2. IMPLEMENTATION OF EFFECTIVE INJURY PREVENTION POLICIES & STRATEGIES: A FEASIBILITY & CUSTOMIZATION STUDY A report based on experts' opinions

Nod yr adroddiad hwn yw darparu negeseuon ystyrlon parthed ffyrdd o wella'r modd o weithredu polisïau effeithiol ac addasu arferion llwyddiannus ym maes atal anafiadau i amrywiol sefyllfaoedd yn yr UE. Fe wnaeth gwledydd gyda phoblogaeth gymharol fechan, ynghyd ag Aelod-Wladwriaethau newydd a rhai nad ydynt yn aelodau o'r UE, dderbyn cyfanswm dichonoldeb uchel, er y gallant yn ymarferol wynebu mwy o anawsterau gyda gweithredu polisïau effeithiol. Ar gael yn:
http://www.eurosafe.eu.com/csi/eurosafe2006.nsf/wwwVwContent/l4wp3results.htm a **http://www.euroipn.org/apollo/WP3.htm**

3. OFFER GWE NEWYDD I GYFRIFO COSTAU MEDDYGOL UNIONGYRCHOL ANAFIADAU

Yr offer gwe yw sgriptiau/cystrawennau SPSS ac y maent wedi'u datblygu i ddadansoddi, cydgordio, cydgrynhoi a chyfuno data ysbytai ar gyfer cyfrifo costau meddygol uniongyrchol. Y mae llawlyfr gyda chanllawiau ar gael, sy'n egluro'r dulliau ar gyfer dadansoddi data ar gyfer data gwyliadwriaeth ysbytai ac y mae'n rhoi disgrifiad o gasglu, cydgordio a dadansoddi data ynglŷn ag achosion o anafiadau a'r defnydd a chostau gofal iechyd cysylltiedig. Ar gael yn:
http://www.eurosafe.eu.com/csi/eurosafe2006.nsf/wwwVwContent/l4wp2results.htm

MAPIAU IECHYD CYMRU

Y mae Mapiau Iechyd Cymru yn offer rhyngweithiol y gellir ei ddefnyddio i archwilio amrywiaeth o ddangosyddion iechyd sydd wedi'u grwpio o dan gategorïau eang, megis canser, gweithredoedd cyffredin ac achosion anafiadau. Y mae'r mapiau'n caniatáu i'r defnyddiwr archwilio data yn eu hardal ddaearyddol o'u dewis (ble y bo ar gael), edrych ar dueddiadau a chymharu ardaloedd gyferbyn â ffigwr cymhariaeth o ran Cymru.

Y mae'r cyhoeddiad cyntaf hwn yn canolbwyntio ar ddata yn ymwneud â derbyn i ysbytai oddi wrth Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW), ynghyd â data am nifer yr achosion o ganser oddi wrth Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU). Y mae dangosyddion yn cynnwys cyfraddau derbyn i ysbytai, amseroedd aros ar gyfer gweithredoedd cyffredin, hyd arhosiad mewn ysbyty a chyfraddau nifer yr achosion o ganser o 2001 i 2007/08. Y mae dangosyddion ar gael ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA), Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Uwch (USOA) ac Awdurdod Unedol (UA), yn ddarostyngedig i reolau datgeliad a niferoedd bychain. Fe fydd dangosyddion newydd a rhagor o ymarferoldeb yn cael eu cyflwyno mewn cyfres o gyhoeddiadau misol yn ystod 2009. Fe ragwelir y bydd cyhoeddiadau dilynol yn ymgorffori rhagor o ddata, megis genedigaethau a marwolaethau, iechyd plant, camddefnyddio sylweddau ac amddifadedd.

A fyddech cystal â chlicio ar y ddolen isod i fynd i mewn i Mapiau Iechyd Cymru ac i ddechrau dethol eich dadansoddiad. Y mae dogfen Cymorth ar gael ar bob tudalen, ac, os gwelwch yn dda, cymerwch ychydig funudau i ddarllen drwyddi i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth fwyaf allan o'r system. Yr ydym yn croesawu sylwadau oddi wrth ddefnyddwyr ynglŷn ag a yw'r dadansoddiadau a ddarperir yn briodol neu'n ddefnyddiol, a hefyd brofiadau cyffredinol defnyddwyr. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, a fyddech cystal â'u hanfon at y **Tîm Cyhoeddi Mapiau** neu ddefnyddio'r ddolen Cysylltu â Ni yn y mapiau'u hunain.

Mynd i mewn i Mapiau Iechyd Cymru

Socioeconomic differences in injury risks: A review of findings and a discussion of potential countermeasures. Sefydliad Iechyd y Byd, 2009. Y mae'r ddogfen lawn ar gael ar-lein:
http://www.euro.who.int/Document/E91823.pdf

Addressing the socioeconomic safety divide: a policy briefing. Sefydliad Iechyd y Byd, 2009. Y mae'r ddogfen lawn ar gael ar-lein:
http://www.euro.who.int/Document/E92197.pdf

Association between health-related quality of life and children's unintentional injuries. Soori H, Abachizadeh K. **J Pak Med Assoc** 2008; 58(12): 674-8. Affiliation: Safety Promotion and Injury Prevention Research

Center, School of Public Health, Shahid Beheshti University of Medical Sciences, Tehran, Iran.

OBJECTIVE: To examine the association between health-related quality of life (HRQOL) and unintentional injuries among children. METHODS: Overall, 3375 children aged 6-10 years were randomly selected from primary schools in Iran. HRQOL was measured by 56 items taken from seven domains of TNO AZL child quality of life (TACQOL) parent form. Parents were interviewed to collect information about incidence, cause and a brief description of injury within the past 12 months prior to the study. RESULTS: The response rate was 3375 of 3792 (89%). There was a significant trend for increasing occurrence of injury with decreasing of HRQOL (P<0.001). Adjusted OR for injury was significantly higher in very low (2.38, 95% CI: 1.45-3.86), low (2.18, 95% CI: 1.34-3.56), medium (1.73, 95%CI: 1.06-2.83) HRQOL groups compared to reference group (very high HRQOL). The median of total HRQOL (P<0.001) and all its domains (P=0.017) (except autonomous functioning) was less in injured group compared to the uninjured one. CONCLUSION: This study found an association between HRQOL and unintentional injury among primary schoolchildren.

Crynodebau adroddiad Ymchwiliad Plentyndod Da:

http://www.childrenssociety.org.uk/all_about_us/how_we_do_it/the_good_childhood_inquiry/report_summaries/13959.html